OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 118 (Cy.10)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Gofal Dydd (Eu Cymhwyso i Ysgolion) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*25 Ionawr 2005*
Yn dod i rym - -	*31 Ionawr 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 104 o Ddeddf Plant 1989(**1**), a pharagraff 1(1) o Atodlen 9A iddi, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal Dydd (Eu Cymhwyso i Ysgolion) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 31 Ionawr 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "y Ddeddf ("*the Act*") yw Deddf Plant 1989.

Y rheidrwydd i gofrestru gofal dydd mewn ysgolion o dan Ran XA

3. Yn ddarostyngedig i reoliad 5, mae'r amgylchiadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 4 yn amgylchiadau a ragnodir at ddibenion paragraff 1 o Atodlen 9A i'r Ddeddf (esemptio ysgolion penodol).

4. Yr amgylchiadau a ragnodir yw pan fydd edrych ar ôl plant, a hynny ag eithrio wrth roi addysg iddynt, yn brif bwrpas darparu'r gofal dydd.

(**1**) 1989 p.41. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y Ddeddf yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd cynnwys y Ddeddf yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) (*gweler* erthygl 2(a) o Orchymyn 1999 ac adran 22(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38)). Mewnosodwyd Atodlen 9A i'r Ddeddf gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p. 14), adran 79 ac Atodlen 3.